# Ordinhad 21
# Unedau Academaidd

**Corff Cymeradwyo:** Y Cyngor

**Dyddiad Cymeradwyo**: 28 Mehefin 2019

**Perchennog y polisi:** Ysgrifennydd y Brifysgol

**Cyswllt y polisi:** Dr Gwawr Taylor, saastaff@aber.ac.uk / 01970 62 2048

**Statws y polisi:** Diwygiwyd

**Fersiwn:** 6.0

**Dyddiad yr adolygiad diwethaf:** Gorffennaf 2023

**Dyddiad yr adolygiad nesaf:** Gorffennaf 2025

**ORDINHAD 21**
**UNEDAU ACADEMAIDD**

1. Sefydlu

    1. Bydd yr unedau academaidd a gydnabyddir gan y Cyngor dan Ystatud 7 fel y rhai sydd â’r cyfrifoldebau pennaf yn cael eu sefydlu’n Gyfadrannau. Y Cyfadrannau a restrir isod fydd Cyfadrannau’r Brifysgol, oni bai a hyd y gwneir ychwanegiadau neu ddiddymiadau neu y newidir enw:

        a. Cyfadran y Celfyddydau a’r Gwyddorau Cymdeithasol
            i. Addysg;
            ii. Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu;
            iii. Celf;
            iv. Gwleidyddiaeth Ryngwladol;
            v. Hanes a Hanes Cymru;
            vi. Ieithoedd a Llên;
                - Ieithoedd Modern;
                - Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol;
                - Y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd;
            vii. Y Gyfraith a Throseddeg;

        b. Cyfadran Busnes a’r Gwyddorau Ffisegol
            i. Astudiaethau Gwybodaeth;
            ii. Busnes;
            iii. Cyfrifiadureg;
            iv. Ffiseg;
            v. Mathemateg;

        c. Cyfadran y Gwyddorau Daear a Bywyd
            i. Adran y Gwyddorau Bywyd
            ii. Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear;
            iii. Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig;
            iv. Seicoleg;

    2. I ddibenion academaidd a gweinyddol, gellir rhannu’r Cyfadrannau hyn yn is-unedau a elwir yn Ysgolion/Adrannau/Athrofeydd, fel yr amlinellir uchod. Bydd gan yr is-unedau hyn statws academaidd.

    3. Gall y Cyngor, trwy ymgynghori â’r Senedd, ychwanegu Cyfadrannau/Adrannau/Ysgolion/Athrofeydd newydd, newid eu henwau, eu hailstrwythuro, eu had-drefnu neu eu diddymu.

2. Cyfansoddiad

    1. Bydd y Cyfadrannau yn cynnwys yr aelodau hynny o'r Staff Academaidd a'r aelodau eraill hynny o staff a ddynodir iddynt o bryd i'w gilydd gan y Cyngor ar gyngor y Senedd.

    2. Yn unol ag Ystatud 7, fe fydd pennaeth i bob Cyfadran a chanddo/chanddi swyddogaethau a chyfrifoldebau penodedig (gweler Ordinhad 22).

    3. Bydd pennaeth gan bob Adran/Ysgol/Athrofa o fewn i Gyfadran, a chanddo/chanddi swyddogaethau a chyfrifoldebau penodedig.

3. <u>Galluoedd a Swyddogaethau</u>

1. Gan bennaeth Cyfadran y bydd y cyfrifoldeb am redeg y Gyfadran honno, a bydd yn atebol i'r Is-Ganghellor, ac yn y pen draw i'r Cyngor.

2. Sefydlir Cyfadrannau dan y Siarter a'r Ystatudau i hwyluso trefnu gwaith academaidd y sefydliad, ac mae eu swyddogaethau, eu galluoedd a'u cyfrifoldebau yn unol â'r hyn a bennir ar eu cyfer gan y Senedd a'r Cyngor wrth weithredu eu hawdurdod dan y Siarter a'r Ystatudau.